

## GIRALDUS CAMBRENSIS ('GERALLT GYMRO', Gerald de Barri) (1146? - 1223), archddiacon Brycheiniog a llenor Lladin

**Enw:** Giraldus Cambrensis

**Dyddiad geni:** 1146?

**Dyddiad marw:** 1223

**Rhiant:** Angharad de Barri (née de Windsor)

**Rhiant:** William de Barri

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** archddiacon Brycheiniog a llenor Lladin

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** Thomas Jones

Fe'i ganed rywbryd rhwng 1145 a 1147 ym Maenor-b r, Sir Benfro, yn fab ieuaf William de Barri ac Angharad ferch Gerald de Windsor a [Nest](#), ferch [Rhys ap Tewdwr](#). Addysgwyd ef gan ei ewythr, [David Fitzgerald](#), esgob Tyddewi, yn abaty S. Pedr, Caerloyw, ac wedyn ym Mhrifysgol Paris, ac wedi dychwelyd oddi yno yn 1172 cafodd gomisiwn gan Richard archesgob Caergaint i orfodi talu'r degymau ar wân a chaws yn esgobaeth Tyddewi. Oherwydd gwrthdrawiad â Jordan, archddiacon Brycheiniog, cafodd Gerallt y swydd iddo ef ei ei hun ac fe'i daliodd nes iddo ymneilltuo o fywyd cyhoeddus. Wedi marw [David Fitzgerald](#) yn 1176 Gerallt oedd y ffefryn gan yr Eglwys i lanw'r swydd, ond gwrthododd Harri II gydnabod enwebiad y canonwyr a'u gorfodi i ethol [Peter de Leia](#), prior Wenlock. Yn ei siom troes Gerallt at ei lyfrau, gan dreulio'r blynyddoedd 1177-80 ym Mharis, lle y bu'n llwyddiannus iawn fel darlithydd, medd ef ei hun. Yn fuan ar ôl ymweld ag Iwerddon gyda'i frawd Phylip yn 1183 cafodd swydd yng ngwasanaeth y brenin, a bu'n gyfryngwr rhwng y llys a'r [Arglwydd Rhys ap Gruffudd](#). Yn 1185, oherwydd ei berthynas â goresgynwyr Iwerddon - brodyr a hanner-brodyr ei fam a'i frodyr ef ei hun - fe'i penodwyd yn gydymaith i'r tywysog John yn Iwerddon, a manteisiodd ar y cyfle i gasglu deunydd ar gyfer ei *Expugnatio Hibernica* a'i *Topographia Hibernica*. Yn 1188 aeth gyda'r archesgob Baldwin ar ei daith drwy Gymru i godi milwyr ar gyfer y drydedd groesgad, taith a ddisgrifir yn ei *Itinerarium Cambriae*. Yn gynnar yn 1194 (y flwyddyn y gorffennodd ei *Descriptio Cambriae*) peidiodd â gwasnaethu'r Goron, ac ymroi eilwaith i'w astudiaethau, y tro hwn yn Lincoln, lle y bu hyd 1198. Cafodd gynnig esgobaethau Bangor a Llandaf yng Nghymru a Wexford a Leighlin yn Iwerddon, ond ar fod yn esgob Tyddewi yr oedd ei fryd. Bu [Peter de Leia](#) farw ar 16 Gorffennaf 1198, ond unwaith eto ni fynnai'r brenin nac archesgob Caergaint benodi Gerallt yn esgob, er mai ef oedd dewisddyn yr Eglwys. Datblygodd y frwydr o fod yn ymdrech dros ethol Gerallt yn esgob i fod yn frwydr dros gydnabod Tyddewi fel eisteddfa archesgobol annibynnol ar Gaergaint. Parhaodd am bum mlynedd ac aeth Gerallt dair gwaith i Rufain i ddadlau'r achos gerbron y pab Innocent III. Cawn yr hanes yn ei hunangofiant *De Rebus a Se Gestis* (a'i ran olaf ar goll) a'i *Dialogus de Jure et Statu Menevensis Ecclesiae*. Yn ei frwdfrydedd ni sylweddolai mai ei union gymwysterau i fod yn esgob Tyddewi - ei Gymreigrwydd, ei ddysg, a'i ynni personol - oedd yn ei anghymeradwyo yng ngolwg ei wrthwynebwyr. Ceisiodd help rhai o dywysogion Cymru, ond ofer fu ei lafur yn y diwedd; yn 1203 collasai ei gefnogwyr hyd yn oed yn Nhyddewi. Ym mis Tachwedd y flwyddyn honno penodwyd Sieffre o Henlaw, prior

Llanhonddu, yn esgob, a bodlonodd Gerallt ar hynny ar yr amod na fyddai Sieffre yn bradychu hen freiniau a hawliau Tyddewi. Am y gweddill o'i oes cafodd fywyd tawel o ddarllen a llenyddu, ond yn 1205 aeth ar bererindod ysbrydol i Rufain. Bu farw yn 1223, ac fe'i claddwyd yn Nhyddewi.

Gyda'i gyfaill [Gwallter Map](#) a [Sieffre o Fynwy](#) ffurfia driawd o lenorion yn y 12fed ganrif a ysgrifennodd - yn Lladin - am bethau Cymreig. Heblaw'r llyfrau a enwyd uchod, ysgrifennodd *Gemma Ecclesiastica*, anogaeth i'r clergwyr ar eu dyletswyddau; *Liber de Invectionibus*, amddiffyniad ohono'i hun ac ymosodiad ar ei elynion; *De Instructione Principis*; *Symbolum Electorum*, casgliad o'i lythyrau, ei farddoniaeth, ei areithiau, etc.; *Speculum Ecclesiae*, ymosodiad ar yr urddau mynachaid; *Speculum Duorum*, nifer o fucheddau saint gan gynnwys ' Buchedd Ddewi ' wedi'i seilio ar waith [Rhygyfarch](#); a mân draethodau eraill.

## Awdur

Yr Athro Thomas Jones

## Ffynonellau

*Giraldi Cambrensis Opera* (1861–91), 8 vols.

H. E. Butler, *The Autobiography of Giraldus Cambrensis* (1937)

Henry Owen, *Gerald the Welshman* (1889), 1904

*Archaeologia Cambrensis*, xcix, 85, 256

Thomas Jones (cyf.), *Gerallt Gymro: hanes y daith trwy Gymru* (1938)

Thomas Jones (cyf.), *Gerald the Welshman* (1947)

Saunders Lewis, *Ysgrifau Dydd Mercher* (Aberystwyth 1945)

*Bulletin of the John Rylands University Library of Manchester*, xii, No. 2

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1949, 2; 1950, 3

## Darllen Pellach

Sally Harper, 'Gerallt Gymro (Giraldus Cambrensis, Giraldus de Barri, Gerald de Barri; c.1146-c.1220)', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), tt.188-190

Erthygl Wicipedia: [Gerallt Gymro](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [67260463](#)

Wikidata: [Q357824](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

